Prosbectws Y Sector Iau

Ysgol Bro Pedr
A fo ben bid bont

Yn darparu addysg ar gyfer eich plentyn o 3 – 19 oed

Bydd dewis ysgol ar gyfer eich plentyn yn un o'r penderfyniadau pwysicaf a wnewch fel rhiant. Beth am drefnu dod i weld yr ysgol ar waith a phrofi naws arbennig Bro Pedr?

Diolch yn fawr am ystyried Ysgol Bro Pedr ar gyfer eich plentyn. Dyma ddechrau ar bartneriaeth hir rhyngom ni fel ysgol a chi fel rhieni.

Mae pob plentyn yn unigolyn a'n cenhadaeth fel ysgol yw cynnig y seiliau addysgol gorau posibl ar gyfer pob un o'n disgyblion.

Mae'r blynyddoedd cynnar yma'n rhai allweddol. Rydym am i'n disgyblion ddatblygu yn academaidd, trwy fod yn ddysgwyr chwilfrydig ac annibynnol.

Mae Bro Pedr yn ysgol hapus lle mae pawb yn parchu ei gilydd a lle mae barn pawb yn bwysig.

Rydym yn ffodus i gael adeilad modern braf a thir helaeth o gwmpas adeilad yr ysgol.
Yn ogystal, bydd ein disgyblion yn cael cyfleoedd i ddefnyddio labordai a chyfleusterau'r Sector Hŷn yn rheolaidd.

Y Cyfnod Sylfaen o 3 i 7 oed

Yn y Cyfnod Sylfaen bydd cyfleoedd i'ch plentyn ddysgu am: Ddatblygiad Personol a Chymdeithasol, Sgiliau Iaith (Llythrennedd a Chyfathrebu), Datblygiad Mathemategol, Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd, Datblygiad Corfforol, Datblygiad Creadigol ac Amrywiaeth Diwylliannol.

Mae'r Uned Feithrin yn rhoi'r pwyslais ar ddysgu drwy chwarae ac ar sgiliau cymdeithasu ein disgyblion. Yn y Dosbarth Derbyn bydd eich plentyn yn datblygu ei sgiliau llythrennedd a rhifedd.

Mae gan rieni rôl gwbl allweddol i'w chwarae yn y cyfnod yma. Bydd athro eich plentyn yn awgrymu ffyrdd y gallwch gefnogi'r dysgu a ddigwydd yn yr ysgol. Mae'r bartneriaeth cartref-ysgol yma'n holl bwysig os yw'ch plentyn yn mynd i fanteisio'n llawn ar ei addysg ym Mro Pedr.

Cyfnod Allweddol 2 o 7 i 11 oed

Mae gan yr ysgol nifer o systemau a strategaethau i gefnogi disgyblion a fydd angen cymorth ychwanegol ar adegau a disgyblion talentog sydd angen eu hymestyn a'u herio.

Cwricwlwm sy'n eang ac yn heriol

Yn ogystal â'r pynciau craidd, sef Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth, bydd cwricwlwm eich plentyn yn cynnwys ystod o bynciau a chyfleoedd eraill, er enghraifft, Celf, Drama a Cherddoriaeth, Dylunio a Thechnoleg a Thechnoleg Gwybodaeth, ieithoedd eraill megis Ffrangeg, Mandarin a Lladin, Addysg Gorfforol a Daearyddiaeth, Addysg Grefyddol a Hanes. Ein bwriad yw datblygu disgyblion sy'n ddysgwyr annibynnol, sy'n cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu, gan osod pwyslais penodol ar godi safonau mewn sgiliau llythrennedd a rhifedd ar draws y cwricwlwm. Bydd cyfle i'n disgyblion i fanteisio ar ystod o glybiau amser cinio ac ar ôl ysgol a bydd nifer o'n disgyblion hŷn yn arwain gweithgareddau fel y Clwb Gwyddoniaeth, Gorsaf Radio'r Ysgol, corau a gweithgareddau Addysg Gorfforol.

Bydd yr ysgol yn adrodd ar gynnydd eich plentyn yn rheolaidd ar draws y flwyddyn ac yn cefnogi disgyblion i gyrraedd eu potensial yn llawn.

Rydym yn falch o'n Cynllun Sgiliau Meddwl –
i ddatblygu sgiliau'n disgyblion i feddwl yn greadigol, yn rhesymegol ac yn ddadansoddol

Bydd yr ysgol yn tracio cynnydd eich plentyn o'r Meithrin hyd at y Chweched Dosbarth a byddwn yn rhannu'r wybodaeth yma gyda chi fel rhieni yn rheolaidd. Trwy wneud hyn gallwn sicrhau dilyniant mewn addysg a chynnydd mewn cyrhaeddiad ein disgyblion.

Dysgir ystod o sgiliau meddwl ar draws y cwricwlwm, sy'n cynnig cyfleoedd i'n disgyblion i wneud penderfyniadau, i ddatrys problemau ac i weithio gydag eraill yn effeithiol.

Bydd ein gwersi yn hybu rhinweddau megis chwilfrydedd, dyfalbarhad a'r gallu i osod targedau personol. Bydd y math yma o ddysgu yn gosod disgyblion Bro Pedr mewn sefyllfa gref i ymdopi â phrofion rhyngwladol PISA, sy'n cael eu mabwysiadu gan Lywodraeth Cymru ac yn eu paratoi ar gyfer y cam nesaf yn eu gyrfa addysgol.

Y tu hwnt i'r Ystafell Ddosbarth

Ni fydd addysg eich plentyn yn cael ei gyfyngu i'r ystafell ddosbarth yn unig. Rydym yn manteisio ar ystod o gyfleoedd sy'n rhoi profiadau dysgu cyfoethog i'n disgyblion. Rydym yn gweithio gydag ystod eang o sefydliadau gwahanol megis y Ganolfan Confucius, y Prifysgolion lleol, Yr Urdd, y Cyngor Chwaraeon, mudiadau elusennol, asiantaethau sy'n hybu addysg wyddonol a thechnolegol ac mae rhain i gyd yn cyfrannu at addysg eangfrydig ein disgyblion.

Rydym yn hynod o ffodus i gael canolfan hamdden, pwll nofio a llain chwarae aml-dywydd yn rhan o gampws yr ysgol. Mae gan yr ysgol draddodiad cryf o gystadlu ar y cae chwarae ac ar lwyfannau eisteddfodau.

Mae cerddorfa'r ysgol yn llewyrchus ac mae côr yr ysgol yn cael cyfleoedd cyson i berfformio o flaen cynulleidfa.

Gofal Bugeiliol ym Mro Pedr

Mae Ysgol Bro Pedr yn ysgol hapus. Mae'r berthynas rhwng staff yr ysgol a'n disgyblion yn arbennig. Mae cymuned yr ysgol yn un gynhwysol a'n nod yw bod llais pob disgybl yn cael ei glywed. Mae'r disgyblion yn cael mynegi barn yn rheolaidd am gynnwys eu gwersi. Mae pob dosbarth yn cael ei gynrychioli ar y Cyngor Ysgol ac mae'r Cyngor yn cwrdd yn rheolaidd i drafod pob math o faterion sy'n ymwneud â bywyd ein disgyblion yn yr ysgol.

Athro / Athrawes eich plentyn yw'r cyswllt allweddol ar gyfer unrhyw faterion hoffech eu trafod. Gallwch hefyd drafod unrhyw faterion gyda'r ddau Bennaeth Ffês neu'r Prifathro.

Mae gan yr ysgol Gyngor Gwrth-fwlio ac rydym yn awyddus i daclo unrhyw ddigwyddiadau o fwlio yn brydlon ac yn effeithiol. Os bydd unrhyw beth yn poeni eich plentyn, cysylltwch â ni yn yr ysgol yn ddi-oed.

Ysgol Rieni-Gyfeillgar

Ein rhieni yw rhai o'n hadnoddau pwysicaf fel ysgol. Mae gan yr ysgol Fforwm Rhieni sy'n cwrdd o leiaf unwaith bob tymor. Mae'r agenda yn gwbl agored ac mae'r rhieni'n cael codi unrhyw agweddau maent yn awyddus i'w trafod gyda ni fel ysgol. Byddwn hefyd yn achlysurol yn trefnu nosweithiau i rannu gwybodaeth am gwricwlwm a chynnydd ein disgyblion. Bob tymor byddwn yn estyn gwahoddiad i rieni i ymweld â ni er mwyn gweld yr ysgol "ar waith". Edrychwn ymlaen i gydweithio gyda chi!

Enwau Cyswllt

David Williams	Pennaeth
Dafydd Charles	Dirprwy Bennaeth (Mynediad)
Llinos Jones	Pennaeth Ffês 1 (Meithrin – Fl. 4)
Heulyn Roderick	Pennaeth Ffês 2 (Bl. 5 a 6)

Manylion Cyswllt

Ysgol Bro Pedr

Teras Ffynnonbedr
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion
SA48 7BX

01570 422214
gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk

The Junior Sector Prospectus

Ysgol Bro Pedr
A fo ben bid bont

Providing an education for your child from 3 – 19

Choosing a school for you child will be one of the most important decisions you will make as a parent. What about visiting us to sample Bro Pedr's special atmosphere?

Thank you for considering Ysgol Bro Pedr for your child. This is the beginning of a long partnership between the school and you as prospective parents.

Every child is an individual and our mission as a school is to provide the best possible educational foundation for our pupils.

These early years are crucial. We want our pupils to flourish academically by being inquisitive and independent learners.

Bro Pedr is a happy school, where everyone respects each other and where everyone's opinion is valued.

We are fortunate to have a lovely modern building with ample grounds surrounding the school. Additionally, our pupils are able to take advantage of the specialist workshops, laboratories and facilities in the Senior Sector.

The Foundation Stage from 3 to 7

In the Foundation Phase your child will have the opportunity to learn about Personal and Social Wellbeing, Language Skills (Literacy and Communication), Mathematical Development, Knowledge and Understanding of the World, Creative Development and Cultural Diversity.

The Nursery Unit places an emphasis on learning through play and on our pupils' social skills. In the Reception Class your child will develop his/her literacy and numeracy skills. We will also provide opportunities for your child to be creative and to learn about health and physical fitness.

Parents have a key role to play during this stage of education. Your child's teacher will suggest ways that you can support the learning that takes place at school. This home-school partnership is crucial if your child is going to benefit fully from his / her education at Bro Pedr.

Key Stage 2 from age 7 to 11

The school has a number of systems and strategies to support pupils who may need additional help from time to time and talented pupils who need to be stretched and challenged.

A Curriculum that is broad and challenging

In addition to the core subjects of Welsh, English, Mathematics and Science your child's curriculum will include a range of additional subjects and opportunities, for example, Art, Drama and Music, Design Technology and Information Technology, additional languages such as French, Mandarin and Latin, Physical Education and Geography, Religious Education and History. Our priority is to develop our pupils as independent learners, who take responsibility for their learning, with a particular emphasis on raising standards in literacy and numeracy across the curriculum. Our pupils can also take advantage of a range of lunchtime and after-school clubs and a number of our Senior Students run activities such as the Science Club, the School Radio Station, choirs and physical education activities.

The school will report on your child's progress regularly during the year and support our pupils to realise their full potential.

We are proud of our Thinking Skills Programme – to develop our pupils' skills to think creatively, logically and analytically

The school will track your child's progress from the Nursery through to the Sixth Form and we will share this information with you as parents regularly. Through this we can ensure continuity in their education and progress in their attainment.



A range of thinking skills are taught across the curriculum, which provide our pupils with the opportunity to problem-solve and to work with others effectively.

Our lessons will promote qualities such as curiosity, perseverance and the ability to set personal targets. This style of learning will place Bro Pedr pupils in a strong position to cope with the international PISA tests, which are being adopted by the Welsh Government and will prepare them for the next step of their educational careers.

Beyond the classroom

Your child's education will not be limited to the classroom. We take advantage of a range of opportunities, which provide our pupils with valuable learning experiences. We work in partnership with a variety of organisations such as the Confucius Centre, the local universities, the Urdd Movement, the Sports Council, charitable organisations, agencies which promote science and technology and these partners all contribute to our pupils' expansive curriculum.

We are particularly fortunate in having a leisure centre, a swimming pool and an all-weather pitch as part of our campus. The school has a strong tradition of competing on the playing field and on the eisteddfod stage.

We have a flourishing school orchestra and the school choirs have regular opportunities to perform in public.

Pastoral Care at Bro Pedr

Ysgol Bro Pedr is a happy school. The relationship between the staff and the pupils is special. The school community is inclusive and our aim is that every pupil's voice is heard. Pupils are encouraged to express opinions about their lessons. Every class is represented on the School Council which meets regularly to discuss a variety of issues that are relevant to our pupils' lives at school.

Your child's class teacher is the key contact person to discuss any issues relating to your child at school. You can also discuss any issues with our Heads of Phase or with the Headteacher.

The school has an Anti-bullying Council and we are eager to tackle any issues of bullying promptly and effectively. Should anything worry your child, do get in touch immediately.

A Parent Friendly School

Our parents are some of the most important resources the school has. The school has a Parents' Forum which meets at least once a term. The agenda is an open one and parents are able to raise any issues which they are eager to discuss with us as a school. Periodically, we arrange evenings to share information about your child's curriculum as well as the usual progress evenings. Every term we extend an invitation for parents to join us to see the school "in-action". We look forward to working with you.

Contact Names

David Williams	Head
Dafydd Charles	Deputy Head (Admissions)
Llinos Jones	Head of Phase 1 (Nursery – Yr. 4)
Heulyn Roderick	Head of Phase 2 (Yrs 5 & 6)

Manylion Cyswllt

Ysgol Bro Pedr

Teras Ffynnonbedr
Llanbedr Pont Steffan
Ceredigion
SA48 7BX

01570 422214

gweinyddu@bropedr.ceredigion.sch.uk